

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Henry Ames (Groes) sydd yn Ysbyty Abergele yn dilyn llawdriniaeth yn ystod yr wythnos. Parhawn i gofio hefyd am Menna Owen (Cefn Meiriadog) yn Ysbyty Glan Clwyd a Harold Lloyd (Tanyfron) yn Ysbyty Bae Colwyn. Deallwn hefyd fod Lyn Jones (Llanfair) wedi cael damwain yn ddiweddar. Cyflwynwn bob un ohonynt i ofal yr Arglwydd a gweddiwn y byddant oll yn cael gwellhad buan, a'u bod yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn. Cofiw'n hefyd am aelodau eraill, rhai mewn galar ac yn hiraethu am anwyliaid, ac eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Rhydian a Glesni ar enedigaeth mab, Edi Glynne, brawd bach i Mali. Dymunwn orau'r nef iddynt fel teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

Sylwch

Bydd y rhifyn olaf o Llais Bro Aled am y flwyddyn hon yn gael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf, ond bwriedir cyhoeddi rhifyn ar gyfer Ionawr 1af. Wnewch chi sicrhau bod unrhyw gyhoeddiad ar gyfer yr oedfaon dechrau'r flwyddyn yn dod i law mewn pryd, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **"Awn i Fethlem"** yn Eglwys Sant Sannan, Llansannan nos Lun, Rhagfyr 19eg am 7.30.
- **Plygain yng Nghapel Llanefydd** nos Sadwrn, Rhagfyr 24ain am 8.00. Croeso i bawb.
- **Gwasanaeth Plygain** yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 ar fore'r Nadolig.
- **Oedfa bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel Henllan am 9.30.
- **Swper Nadolig 'Adnabod'** nos Fercher, Rhagfyr 28ain. Os ydych chi'n perthyn i un o'r grwpiau 'Adnabod', cadwch y dyddiad yn rhydd! Mwy o fanylion yr wythnos nesaf.
- **Taith gerdded** (ar y gwastad!) dydd Iau, Rhagfyr 29ain. Mwy o fanylion i ddod.
- **Gwasanaeth Carolau Undebol yng Nghapel Henllan**, bore Sul, Ionawr 1af am 11.00 gyda phaned i ddilyn.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Rhagfyr 2011

Bydd Trysorydd pob eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich cyfraniadau ariannol cyn diwedd y flwyddyn, os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i bawb ohonoch i oedfaon y dydd. Wrth i ni nesáu at Wyl y Geni, gweddiwn y bydd pawb ohonom yn cael blas o'r newydd ar addoli'r Un a ddaeth yn dlawd drosom ni, er mwyn i ni ddod yn gyfoethog trwy ei dlodi Ef.

Dros yr wythnosau diwethaf mae'r criw Adnabod Be Nesa (a Huw a minnau!) wedi bod yn ystyried rhai o'r cwestiynau mawr sy'n codi wrth i ni ddarllen trwy efengyl Marc Beibl.net. (Yn dilyn oedfa nos Sul diwethaf mae cyfle i bawb ohonom i wneud hynny hefyd gan fod pecynnau o'r efengyl wedi'i dosbarthu rhwng pob eglwys!) Wrth ddarllen rhai o'r hanesion am weinidogaeth Iesu ym Marc, nid yw'n cymryd llawer o amser i rywun ddod i'r casgliad nad oes neb tebyg i'r Iesu. Yn yr hyn a ddywedodd, a'r hyn a wnaeth, gosododd ei hun mewn categori yn llwyr ar wahân i bawb arall o'i gwmpas, ac yn wir pawb fu o'i flaen ac a fu wedyn! Wrth iddo faddau pechodau'r dyn wedi ei barlysu, dangosodd yn glir i'r Iddewon ei fod yn Dduw - yr unig un all ein hiachau o'n cyflwr gwrthryfelgar (Marc 2:1-10). Wrth iddo dawelu'r storm ar y môr amlygodd ei arglwyddiaeth dros ei greadigaeth (Marc 4:35-41). A phan atgyfododd ferch Jairus, dangosodd ei reolaeth dros fywyd a marwolaeth (Marc 5:35-42). Wedi clywed hyn oll, cawsom ein herio i feddwl beth oedd yr hanesion hyn yn ei olygu i ni heddiw? Ydym ni'n meddwl am Iesu fel dyn da, neu'n fwy tebygol yn y cyfnod hwn fel babi bach mewn preseb yn unig? O ddarllen efengyl Marc, a gweddill y Testament Newydd, nid yw hynny'n bosib. Yno, cawn weld Duw yn ddyn, wedi dod i iachau, i ddysgu, i arwain, i farw am ein pechodau, ac i atgyfodi'n fuddugol. Onid yw hynny felly yn rheswm i ni lawenhau? Mae'r Un y byddwn yn dathlu ei enedigaeth wir yn fyw, ac mae wir yn gallu'n glanhau yn dragwyddol. Er gwaethaf ein hamgylchiadau, ein poenau a'n gwendid, gallwn weld Iesu yn y Beibl gan wybod fod yr hyn a wnaeth ym mywydau pobl yn yr hanesion hynny ar gael i ninnau. A gallwn ninnau hefyd brofi ei gariad a'i drugaredd yn ein bywydau, dim ond i ni droi ato ac ymddiried ynddo, yn union fel y gwnaeth cynifer o'r rhai y darllenwn amdanynt. Mwynhewch y cyfle i bori trwy efengyl Marc, a boed i'r darllen, trwy oleuni'r Ysbryd Glân, ddod â ni i adnabyddiaeth ddyfnach o'n Gwaredwr!

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **Parti Nadolig CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- **Adnabod Be Nesa?** yn y Granar yn Llansannan am 7.30 i'r criw gafodd eu derbyn yn aelodau yn ddiweddar a ieuencid 15+.
- Mercher • **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
- Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Sul nesaf • **Oedfa Garolau i'r Fro yng Nghapel Cefn Meiriadog** am 6.00 gydag Andras Iago yn arwain yr addoliad.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mercher Cynhelir Parti Nadolig Capel Cefn Meiriadog yn y Ffestri am 5.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30. Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00, ac i ddilyn, cynhelir y Parti Nadolig yn y Neuadd Goffa.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio Nadolig Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Ffestri ac ymarfer i'r plant yn y capel am 10.00, a bydd Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00, gyda pharti i ddilyn yn y Ffestri.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Mawrth Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30 pan fydd Mrs Glenys Williams, Llanrhaeadr yn gwneud kannwyll Nadolig.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig (Nantglyn a Thanyfron) yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Mawrth Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30 pan fydd Mrs Glenys Williams, Llanrhaeadr yn gwneud kannwyll Nadolig.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn Saron am 11.00 a bydd Parti'r plant yn dilyn.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a Mr Peter Smith yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00, a bydd y plant yn ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig.
- Mawrth Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30 pan fydd Mrs Glenys Williams, Llanrhaeadr yn gwneud kannwyll Nadolig.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 11.00, ac i ddilyn, cynhelir y Parti Nadolig yn y Ffestri. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Gareth Edwards yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanefydd am 11.00, ac i ddilyn, cynhelir y Parti Nadolig yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Llanefydd am 6.30. Cesglir yr amlenni a ddosbarthwyd tuag at y Feibl Gymdeithas yn ystod y gwasanaeth (neu cyn y Sul hwnnw, os gwelwch yn dda). Gwerthfawrogi'r petaech yn llenwi'r rhan Rhodd Cymorth ar yr amlen, os yw hynny'n bosibl.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain (yr amser i'w gadarnhau).

Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
- Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
- Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
- erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.